**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2026**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, Sharon Parry, Gareth Thomas, Evan Wyn Robertson a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. William Victor Owen.
2. **Datganiad o** Fuddiant – datganiadau o fuddiant personol:
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn eitem 4.2 Caergeiliog, Neuadd y Pentref.
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 18 Tachwedd 2025 fel rhai cywir (cyn. Cyng. S. Parry, eilio Cyng. G.O. Jones ).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: - diim byd i'w adrodd.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd Dŵr Cymru wedi cysylltu'r prif gyflenwad dwr i'r neuadd. Derbyniwyd amcangyfrif o £2,140 ar gyfer gatiau rhodfa newydd, giât gefn a rheiliau ychwanegol. Byddai'r clerc yn gofyn am ddarlun o'r hyn a gynigir.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion –
Roedd preswylydd lleol wedi gofyn am loches bws newydd yn lle'r un a dynnwyd o'r lle glas o flaen Dol Eithin ar Heol Minffordd rai blynyddoedd ynghynt. Roedd y clerc wedi ymateb gan ddweud bod y lloches bws dan sylw wedi'i osod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i fod wedi cael ei symud yn ôl pob tebyg gan y Cwmni Rheoli gan ei fod angen ei thrin. Yn anffodus, nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw awdurdod i wneud unrhyw waith o'r fath yno gan ei fod yn dir preifat.

5. **Cynllunio**

5.1 LUE/2025/46 Fron Wen, Ffordd Minffordd, Caergeiliog
Cais am Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon ar gyfer defnyddio'r tir fel amaethyddol am o leiaf 10 mlynedd ar dir cyfagos - dim sylwadau.

5.2 HHP/2025/198 Llwyn Celyn, Ffordd Caergybi / Holyhead Road, Caergeiliog.
Cais llawn am newidiadau ac estyniadau - dim sylwadau.

5.3 FPL/2025/291 Parc Solar Traffwll ar dir yn Llanfihangel yn Nhowyn
Cais llawn ar gyfer gosod ceblau tanddaearol - dim sylwadau.

6. **Materion Ariannol**
Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.11.2025 a 31.12.2025 ynghyd â chysoni banciau, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Praesept

Craffwyd a thrafodwyd rhagolwg y cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2026 a'r gwariant disgwyliedig ar gyfer 2026/27. Ar ôl ystyried y wybodaeth honno a'r cronfeydd wrth gefn a ragwelir ar 31 Mawrth 2026, cytunwyd yn unfrydol i ofyn am praesept o £22,000 ar gyfer 2026/27. Roedd yr aelodau yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor Sir ac yn amharod iawn i roi baich ychwanegol ar y trethdalwyr ond roedd yn anochel oherwydd y costau cynyddol o gynnal a chadw'r neuadd bentref a'r ardal chwarae.

6.2 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Tachwedd) | £364.39 | Un Llais Cymru | £42 |
| R.G.Hire | £2340 | G. J. Griffiths (Sparky Elec.) | £626.40 |
| Cyflog (Rhagfyr) | £364.19 | Scottish Power | £190.62 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Un Llais Cymru: Hawlfraint a Chymryd Rhan mewn Gweminarau

7.2 Nodyn Datblygu Ymarfer (22) Sefydlu Aelodau

7.3 Ymgynghori ar ailgylchu a gwastraff

**8. Hyfforddiant –** atgoffwyd aelodau am y lleoedd am ddim sydd ar gael gan Un Llais Cymru.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cynghorydd Sian Jones:

Gofynnodd a oedd modd gwneud rhywbeth am y cerbydau sy'n blocio'r palmant ger y garej ar Minffordd Road.

9.2 Cynghorydd Sharon Parry

Rhywun wedi gofyn iddi a oedd posib cael lle chwarae i blant yn Llanfihangel yn Nhowyn. Nid oedd gan y Cyngor Sir na'r Cyngor Cymuned unrhyw dir yn y pentref ac awgrymwyd bod trigolion yn gwneud ymholiadau gyda'u cwmni rheoli yn y lle cyntaf i ofyn a oedd ganddynt dir addas ar ei gyfer.

9.3 Cynghorydd Gordon Owen

Hysbysodd y Cyngor ei fod wedi prynu Capel Seilo a'r tŷ capel yng Nghaergeiliog ac y byddai'n ofynnol iddo ailenwi'r adeiladau fel rhan o'r broses. Ei fwriad oedd eu hailenwi'n Gorffwysfa a Tawel Fan.

9.4 Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas wrth y Cyngor fod Rownd Table Caergybi wedi trefnu i Siôn Corn alw yn neuadd y pentref a bod nifer annisgwyl o deuluoedd ifanc wedi mynychu er gwaethaf y tywydd ofnadwy. Roedd yn braf iawn gweld y neuadd mor brysur.

**10. Cyfarfod Nesaf - 17 Chwefror 2026**

: